# GWYNEDD AC ERYRI 2035

## Bwletin

Hydref 2025



# GWYNEDD AC ERYRI 2035

## Bwletin - Hydref 2025

## Tabl Cynnwys

1. Croeso: Gair gan Gyd-gadeiryddion Partneriaeth Gwynedd ac Eryri . . . . . . . . . . . . . . 3

2. Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035: Crynodeb 2024–25 . . . . . . . . . . . . . . . . . 5

3. Cyflwyniad Ffurfiol Conwy i'r Bartneriaeth . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 7


4. Rhaglenni Llysgenhadon . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8

5. Cynlluniau Cyfathrebu 2025: Cod Ymwelwyr, Negeseuon Diogelwch a Addewid Busnes. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 10

6. Ardoll Ymwelwyr . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 12

7. Buddsoddi mewn Cymorth Busnes ac Isadeiledd Cymunedol . . . . . . . . . . . . . . . . . 13

8. Cynhadledd Gwynedd ac Eryri 2035 - Chwefror 2025 . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 17




# 1. Croeso: Gair gan Gyd-gadeiryddion Partneriaeth Gwynedd ac Eryri



Michael Bewick ac Einir Young yng Nghynhadledd Gwynedd ac Eryri

Mae'r Bartneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer Gwynedd, Eryri a Chonwy bellach wedi'i hen sefydlu ar ôl i gynhadledd a fynychwyd gan nifer dda arddangos y gwaith ardderchog sy'n digwydd yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

Mae'n galonogol gweld canlyniadau Arolwg Preswylwyr Cyngor Gwynedd yn ddiweddar sy'n dangos bod y mwyafrif helaeth o bobl yn gweld bod twristiaeth o fudd economaidd a'i bod yn meithrin ymdeimlad o falchder yn ein cymunedau ac nad yw'n cael ei hystyried yn fygythiad i'r Gymraeg.



Michael Bewick
Cyd-gadeirydd: Partneriaeth Gwynedd ac Eryri

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y rhaglen llysgenhadon yn golygu y gallwn roi croeso gwirioneddol i ymwelwyr sydd eisiau archwilio a deall y gorau o'r hyn sydd gennym i'w gynnig. Eu croesawu fel gwesteion i'n cartref.

Mae'r amrywiaeth eang o newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol sydd i ddod - yn cynnwys yr ardoll newydd, cofrestru, trwyddedu yn ogystal â mesurau mwy lleol gan gynnwys Erthygl 4 a Phremiwm y Dreth Gyngor - wedi arwain at ymdeimlad o orlwytho o fewn y sector sydd â'r potensial i atal buddsoddiad a lleihau capasiti.

Mae'n bwysicach fyth felly bod y Bartneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy yn pledio achos sector twristiaeth sydd er budd ein cymunedau a'n hymwelwyr. Ymhlith y tasgau pwysicaf yn y flwyddyn i ddod fydd helpu i lunio cynlluniau i sicrhau bod yr Ardoll (os yn cael ei weithredu) yn helpu i greu cyrchfan fwy cynaliadwy ac o ansawdd uchel y gallwn i gyd fod yn falch ohoni.

Michael Bewick, Cyd-gadeirydd Grŵp y Sector Twristiaeth

Mae twristiaeth yn gynyddol yn hawlio penawdau'r newyddion yn fyd-eang gyda nifer o adroddiadau o 'ordwristiaeth' yn arwain at heriau cynyddol. Gall penawdau negyddol fod yn anghyfforddus, ond yr unig ffordd i ddatrys y materion go iawn yw drwy fynd i'r afael â nhw'n agored a gweithio gyda'n gilydd i gyd-greu ffyrdd dychmygus o ddiwallu anghenion cymunedau, busnesau ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae aelodau Partneriaeth Twristiaeth Gwynedd, Eryri a Chonwy ar daith i gydweithio gan ganolbwyntio ar les ein cymunedau. Trwy ddathlu iaith, diwylliant, treftadaeth a'n hamgylchedd, y nod yw gwneud y mwyaf o fudd trwy wella'r profiad i ymwelwyr gan sicrhau nad ydym yn anfwriadol yn 'lladd yr iâr a cholli'r cywion' fel sy'n digwydd mewn cymaint o ddinasoedd a chyrchfannau poblogaidd ledled y byd.

Mae'r gwahanol gyfarfodydd a gynhelir yn sicrhau bod swyddogion, cynghorwyr, cynrychiolwyr cymunedol, busnesau a mentrau cymdeithasol yn dechrau dod i adnabod a deall ei gilydd yn well. Cynhaliwyd cynhadledd eithriadol o addysgiadol ym Mangor ym mis Chwefror a gweithdy defnyddiol ym Mlaenau Ffestiniog ym mis Mai i adnabod a blaenoriaethu themâu.

Mae yna arwyddion cadarnhaol bod hyn yn dwyn ffrwyth fel y dangosir yn y nodyn briffio hwn. Ond mae mwy i'w wneud i sicrhau bod mwy o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r ymdrechion sydd ar y gweill i greu diwydiant ymwelwyr sy'n deg i bawb ac i berswadio eraill bod croeso iddynt ymgysylltu â ni.



Einir Young
Cyd-gadeirydd: Partneriaeth Gwynedd ac Eryri

Einir Young, Cyd-gadeirydd Grŵp y Sector Twristiaeth

# 2. Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035: Crynodeb 2024–25

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer 2024–25 wedi dangos cynnydd cadarnhaol tuag at amcanion hirdymor partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035.

Gyda rhwydweithiau newydd o fusnesau di-blastig, gwelliannau i isadeiledd twristiaeth, amrywiaeth o ddigwyddiadau, a mwy o lysgenhadon i'r ardal nag erioed o'r blaen, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol.




Rydym yn cydnabod bod angen llawer mwy o waith i gyflawni ein huchelgeisiau hirdymor, ac mae cyfraniad pob unigolyn a sefydliad yn allweddol.

Wrth i ni symud ymlaen i ddatblygu cynllun 2025–26, mae amser o hyd i chi rannu eich prosiectau, eich syniadau a'ch gwaith arloesol gyda ni.

Mae'r cynllun gweithredu llawn 2024–25 ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd:
**Cartref > Busnesau > Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035**


I ychwanegu eich prosiect twristiaeth gynaliadwy at y cynllun, defnyddiwch y cod QR isod.





Cyngor Gwynedd | Parc Cenedlaethol Eryri National Park | Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council

Isod: Crynodeb o Gynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2024-2025*




*Mae'r holl ddogfennau i'w gweld ar dudalen Gwynedd ac Eryri 2035 (sganiwch y cod isod).



# 3. Cyflwyniad Ffurfiol Conwy i'r Bartneriaeth

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn falch o ymuno'n ffurfiol â phartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035. Mae hyn yn nodi dechrau pennod newydd lle byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i greu dyfodol gwyrddach, cryfach a mwy llwyddiannus i'n rhanbarth.

Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â Chyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i wireddu ein nodau ar y cyd—nodau fydd yn dod â budd i bobl leol ac ymwelwyr, nawr ac yn y dyfodol.

Trwy gydweithio, gallwn rannu gwybodaeth, syniadau ac adnoddau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y rhan arbennig hon o Ogledd Cymru.

Mae Strategaeth Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 a'n Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy (2023–2029) ill dau yn canolbwyntio ar wneud twristiaeth yn fwy cynaliadwy. Mae hynny'n golygu cynnig profiad gwych i ymwelwyr tra'n diogelu ein tirluniau, ein diwylliant a'n cymunedau.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo twristiaeth gyfrifol, cefnogi busnesau lleol, a sicrhau bod twristiaeth yn helpu'r economi heb niweidio'r amgylchedd na lles cymunedol.



# 4. Rhaglenni Llysgenhadon

## Rhaglenni Llysgenhadon Gwynedd, Eryri a Chonwy

Llysgennad GWYNEDD Ambassador

LLYSGENNAD ERYRI AMBASSADOR

Fel rhan o fenter genedlaethol Llysgenhadon Cymru, mae rhaglenni Llysgenhadon Gwynedd, Eryri a Chonwy yn cynnig hyfforddiant ar-lein hygyrch i unigolion sy'n awyddus i ddysgu mwy am y rhanbarthau unigryw hyn a'r hyn sy'n eu gwneud mor unigryw.

Hyd yn hyn, mae dros 1,300 o bobl wedi cymhwyso fel Llysgenhadon Eryri lefel Efydd, gydag ychydig dros 1,000 yn cyflawni lefel Arian a bron i 900 yn cyrraedd lefel Aur. Yn ogystal â hyn, mae 250 o Lysgenhadon Eryri wedi cwblhau Modiwl Gloywi 2025. Mae'r modiwl hwn yn rhoi diweddariadau am newidiadau diweddar i gynnwys y cwrs ac yn tynnu sylw at brosiectau allweddol a gwaith pwysig yr Awdurdod a'i bartneriaid dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae nifer y Llysgenhadon cymwys yn parhau i gynyddu yng Ngwynedd, gyda 229 bellach yn gymwys ar lefel Efydd, 144 ar lefel Arian a 126 ar lefel Aur. Mae niferoedd Conwy hefyd yn cynyddu gyda 662 yn gymwys ar lefel Efydd, 530 ar lefel Arian a 429 ar lefel Aur.

LLYSGENNAD TWRISTIAETH conwy TOURISM AMBASSADOR

## Mae modiwlau newydd cyffrous bellach yn fyw!

Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cydweithio i greu dau fodiwl newydd diddorol, sydd bellach ar gael i aelodau ar y ddwy raglen. Mae'r modiwl Cyflwyniad i Dwristiaeth Gynaliadwy yn archwilio'r diffiniad o economi ymwelwyr a rennir gan y rhanbarth, yn ogystal â'r egwyddorion craidd sy'n sail i Gynllun Economi Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri 2035. .





Cyngor Gwynedd · Parc Cenedlaethol Eryri National Park · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council

Mae'r modiwl Adventure Smart, a grëwyd mewn partneriaeth ag Adventure Smart UK, yn edrych pam mae pobl weithiau'n gwneud penderfyniadau gwael yn yr awyr agored. Mae hefyd yn tywys busnesau ar sut i rannu negeseuon diogelwch clir, ymarferol gydag ymwelwyr, gan eu helpu i gadw'n ddiogel wrth grwydro. Mae'r ddau fodiwl bellach yn fyw ac ar gael i'w defnyddio.

Mae gan Gonwy hefyd nifer o ddigwyddiadau ar gyfer llysgenhadon wedi'u cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf; gallwch ddod o hyd i'r holl ddigwyddiadau a thocynnau drwy'r cod QR:

## Ymgysylltu â'n Llysgenhadon

Ym mis Ionawr 2025, cynhaliodd Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) ddigwyddiad Llysgenhadon ar y cyd yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, o'r enw **Noson o dan y Sêr**. Daeth y noson lwyddiannus hon â Llysgenhadon o Wynedd ac Eryri at ei gilydd ar gyfer sgwrs dywys ddiddorol o dan y sêr gan Swyddog Awyr Dywyll APCE, Dani Robertson.

Cafodd mynychwyr hefyd weld planetariwm symudol - cromen gynhwysol sy'n efelychu awyr y nos, gan ganiatáu i ddefnyddwyr archwilio seryddiaeth mewn lleoliad realistig a rhyngweithiol. Yn dilyn y cyflwyniad, tywyswyd y Llysgenhadon ar daith o amgylch cartref hanesyddol y bardd Hedd Wyn, dan arweiniad Naomi Jones, Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE. Cafodd y digwyddiad groeso cynnes gan bawb a fynychodd, ac edrychwn ymlaen at gynnal mwy o ddigwyddiadau fel hyn yn y dyfodol.





Awyr y nos dros ogledd Cymru a dynnwyd gan swyddog awyr dywyll Parc Cenedlaethol Eryri, Dani Robertson (de).



# 5. Cynllluniau Cyfathrebu 2025: Cod Ymwelwyr, Negeseuon Diogelwch ac Addewid Busnes.

## Eryri Mynyddoedd a Môr: Ymgyrchoedd Marchnata Digidol a Fframwaith Cynnwys Gwefan

Ym 2024, llwyddodd Cyngor Gwynedd i sicrhau cyllideb o dros £1.6m ar gyfer Prosiect Diwyllesiant o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Un o ganlyniadau'r prosiect oedd gweithredu ymgyrch farchnata ddigidol i hyrwyddo'r economi ymwelwyr a chreu 5,000 o ymwelwyr ychwanegol a £250,000 o incwm i'r economi leol a'r cymunedau.

**EFFAITH YR YMGYRCH (7 MIS)**


**120k+** CLICIAU UNIGRYW AR Y WEFAN

**1.9M+** CYRHAEDDIAD CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**5M+** ARGRAFFIADAU

**9,800** YMWELIADAU YCHWANEGOL Â'R ARDAL

**2M+** HWB I'R ECONOMI LEOL




Cafodd ymgyrch farchnata ddigidol **'Lleol i Ni'** ei lansio ym Mehefin 2024 gyda'r prif nodau o hyrwyddo diwylliant, treftadaeth, iaith, tirwedd, cynnyrch lleol, cymunedau a chyfleoedd awyr agored yn yr ardal.

Fel rhan o'r ymgyrch, cynhyrchwyd cynnwys gwefan newydd oedd yn cynnig golwg ffres ar rai o'n hanesion hynaf, gan dynnu sylw at straeon chwedlonol hudol, yn ogystal â hanesion hynafol Eryri. Crëuwyd mwy o gynnwys i dynnu sylw at ein cynnyrch lleol eithriadol, celf a diwylliant, tafarnau cymunedol, awyr tywyll ac i ddenu pobl i'r awyr agored a dan do.

**13 BUSNES ANNIBYNNOL / CYMUNEDOL WEDI'U CYNNWYS MEWN FIDEOS YMGYRCH**

**203 BUSNES ANNIBYNNOL / CYMUNEDOL WEDI'U HAMLYGU MEWN 9 ERTHYGL YMGYRCH**

**3 LLENOR ANNIBYNNOL, 1 FIDEO-GYNHYRCHYDD, 1 FFOTOGRAFFYDD A 1 RHEOLWR PROSIECT WEDI'U CYFLOGI**

## Ymgyrch Marchnata Hwyl yn Eryri a Phen Llŷn

Ym mis Ionawr 2025, cafwyd lansiad blwyddyn thema newydd Croeso Cymru, **Blwyddyn Croeso**. Roedd hon yn gyfres newydd o flynyddoedd thematig gan Croeso Cymru a'u prif ymgyrch farchnata ar gyfer Cymru, 'Hwyl', oedd yn canolbwyntio ar y teimladau o hwyl a llawenydd y gellir eu profi 'dim ond yng Nghymru'.





Mae'r bartneriaeth, yn gweithio unwaith eto gyda Croeso Cymru, ac yn parhau i hybu'r Croeso Cymreig unigryw gan arddangos y profiadau, cynnyrch, cyrchfannau, a diwylliant eiconig sydd ond i'w cael yn Eryri a Chymru.

Ers dechrau'r flwyddyn, cynhyrchwyd cynnwys newydd ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan o dan y thema Hwyl yn Eryri a Phen Llŷn. Mae hyn wedi cynnwys creu erthyglau ffres i'r wefan megis 'Canfod eich Hwyl yn Eryri a Phen Llŷn' a 'Hwyl ac Antur Awyr Agored i'r Teulu Cyfan'.

Mae'r fframwaith cynnwys a'r strategaeth i'r cyfryngau cymdeithasol wedi canolbwyntio ar rannu asedau digidol go iawn a deniadol. Mae pwyslais cryf wedi cael ei roi ar gynhyrchu fideos a delweddau i ddangos y cyrchfannau a'r gweithgareddau a amlygwyd yn yr erthyglau. Mae'r atyniadau a'r gweithgareddau a amlygwyd ledled Gwynedd ac Eryri yn cynnwys Antur Stiniog, Gypsy Wood, Plas Menai, Parc Glasfryn, Canolfan Tryweryn, Golff Llŷn a Sawna Bach, ym Mharc Padarn.

Mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau cyllid ychwanegol o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i ehangu cynnwys y wefan, creu asedau digidol newydd, a chyflwyno ymgyrch farchnata ddigidol wedi'i thargedu.




Yn y misoedd sydd i ddod, bydd cynnwys y wefan newydd yn cael ei ddatblygu i ddenu cynulleidfa annibynnol, gan ganolbwyntio ar bobl sydd â ddiddordeb yn yr Awyr Agored, Teuluoedd, ac yn niwylliant unigryw'r ardal.


Croesewir cefnogaeth i'r ymgyrch trwy ddilyn y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a rhannu cynnwys Hwyl yn Eryri a Phen Llŷn:

TikTok

# 5. Cynlluniau Cyfathrebu 2025: Cod Ymwelwyr, Negeseuon Diogelwch a Addewid Busnes.


Mae'r bartneriaeth yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod gwybodaeth hanfodol am ddiogelwch yn cyrraedd trigolion ac ymwelwyr ar draws y rhanbarth. Trwy weithio ar y cyd, rydym yn helpu i rannu negeseuon diogelwch amserol a chyson ar draws ein holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Dangosir enghreifftiau o'r negeseuon hyn (gan Barc Cenedlaethol Eryri) isod, ac mae negeseuon o'r Parc neu Gyngor Gwynedd yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad agos â gwasanaethau brys ac achub allweddol, gan gynnwys y tîm achub mynydd lleol, criwiau bad achub yr RNLI, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru.




Mae'r dull cydlynol hwn yn helpu i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â risgiau posib, o ddiogelwch mynydd ac amodau arfordirol i iechyd a pharodrwydd am argyfwng.

**Cyngor Diogelwch: Parc Cenedlaethol**



Yn ogystal â rhannu cynnwys diogelwch gwreiddiol, mae pob cyfrif hefyd yn tynnu sylw at negeseuon o ffynonellau dibynadwy, fel yr un hwn gan Ddiogelwch Dŵr Cymru (ar y dde), trwy rannu postiadau o'u tudalen Facebook a sianeli eraill.

Mae hyn yn helpu i ganllawiau hanfodol gyrraedd mwy o bobl, gan sicrhau bod gwybodaeth am ddiogelwch mor hygyrch ac wedi'i dosbarthu mor eang â phosib.

I sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran cynnwys, mae negeseuon cadarnhaol fel yr un hon ar y chwith hefyd yn cael eu rhannu, lle mae gwaith unigolion, grwpiau, cymunedau a busnesau yn cael sylw.







Trwy'r ymdrech gyfathrebu unedig hon, rydym yn helpu i gryfhau gwytnwch cymunedol a hyrwyddo profiadau mwy diogel i bawb sy'n byw yn y rhanbarth neu'n ymweld â'r rhanbarth.

# Rhagor o ddolenni defnyddiol isod...

**Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri**

**Diogelwch ar y Traeth**

**Canllawiau AdventureSmart**

**Mwynhewch Awyr Agored Conwy yn Ddiogel**



# 6. Ardoll Ymwelwyr

Ar 8 Gorffennaf 2025, cymeradwyodd y Senedd y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Dyma'r dreth gyntaf a gynlluniwyd yn lleol yng Nghymru ers dros 500 o flynyddoedd. Mae'r gyfraith newydd yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno tâl bach am bob noson, a elwir yn ardoll ymwelwyr, i bobl sy'n aros dros nos yn yr ardal. Y nod yw helpu i ariannu gwasanaethau a chyfleusterau lleol y mae ymwelwyr yn eu defnyddio, fel toiledau, llwybrau troed, traethau a chanolfannau ymwelwyr.


Byddai'r ardoll, pe bai'n cael ei chyflwyno, yn cael ei gosod ar £1.30 y pen y noson ar gyfer y rhan fwyaf o letyau, gan gynnwys gwestai, gwely a brecwast, ac eiddo hunanarlwyo. I hosteli a gwersylloedd, byddai'r gyfradd yn 75c y pen y noson. Ni fyddai'n rhaid i rai dan 18 oed dalu'r gyfradd is mewn hosteli a gwersylloedd. Efallai y bydd y cyfraddau hyn yn cael eu haddasu ymhellach yn ystod proses graffu barhaus y Senedd.

Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y Bil ar 18 Medi 2025. Bydd Awdurdod Refeniw Cymru (ARC) bellach yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gynnal cofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety ymwelwyr ac o gasglu'r ardoll ar ran awdurdodau lleol a allai fabwysiadu'r ardoll yn eu hardaloedd. Bydd pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru yn gorfod cofrestru, hyd yn oed mewn ardaloedd lle nad yw'r ardoll yn cael ei chyflwyno.

Mae'r gyfraith hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a rhoi o leiaf 12 mis o rybudd cyn i'r ardoll ddechrau. Golyga hyn mai'r dyddiad cynharaf posib i gyflwyno'r ardoll yw mis Ebrill 2027.

Yn dilyn pasio'r Bil, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy yn adolygu eu safbwynt. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn siarad â busnesau twristiaeth lleol, grwpiau cymunedol a thrigolion i ddeall effeithiau posib yr ardoll a sut y gallai weithio yn ymarferol. Os penderfynwn fwrw ymlaen, gallai'r incwm helpu i wella a chynnal cyfleusterau pwysig sydd o fudd i ymwelwyr a phobl leol.

Bydd rhagor o wybodaeth am yr ardoll ymwelwyr yn cael ei chyhoeddi ar wefannau Cyngor Gwynedd a Chonwy maes o law. Cofiwch gadw llygad ar ddiweddariadau.



# 7. Buddsoddi mewn Cymorth Busnes ac Isadeiledd Cymunedol

**Mae dros £2 filiwn o gyllid wedi'i roi i gefnogi busnesau Gwynedd yn ystod 2024-25, drwy gynlluniau yn amrywio o Grantiau Datblygu Busnes i'r rhaglen Trawsnewid Trefi, gan helpu mentrau lleol i dyfu, ffynnu a chyfrannu at gymunedau bywiog.**



Caffi Largo, Pwllheli

Derbyniodd **Caffi Largo** ym Mhwllheli **Grant Datblygu Busnes** i uwchraddio ei gegin a'i gyfleusterau storio, gwella effeithlonrwydd ynni, ac ehangu'r lle eistedd. Mae'r gwelliannau hyn wedi hwyluso'r gwaith, lleihau costau, rhoi hwb i ansawdd y gwasanaeth, a chefnogi cyflogi staff llawn amser gan gryfhau rôl y caffi fel canolfan gymunedol allweddol a sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor.



Tŷ Afon, Beddgelert

Derbyniodd **Tŷ Afon**, tŷ llety boutique a lleoliad priodas ym Meddgelert, **Grant Trawsnewid** i osod system wresogi fodern ac uwchraddio'r tu mewn. Mae'r gwelliannau hyn yn galluogi gweithredu drwy gydol y flwyddyn, gwella profiad gwesteion, lleihau costau, a chefnogi twf y busnes gan greu cyfleoedd am swyddi lleol newydd a gwytnwch hirdymor.

Derbyniodd **Llofft**, caffi yn y Felinheli, grant **ARFOR** i ehangu ei wasanaethau, a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae buddsoddi mewn offer cegin, system rheoli busnes newydd, a marchnata digidol wedi rhoi hwb i gapasiti, hwyluso'r gwaith a chynyddu gweledEdd gan gryfhau'r busnes a'i effaith ddiwylliannol yn y gymuned.



Llofft, Felinheli

Rhagor o Astudiaethau Achos Grant Datblygu Busnes drwy'r cod QR isod

**Mae gwelliannau i'r isadeiledd wedi cael eu cefnogi drwy raglen Bywiogrwydd Canol Trefi y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Adfywio Dyffrynnoedd Llechi.**

Mae'r gwelliannau hyn yn rhan o ymdrech ehangach i adfywio canol trefi ac ardaloedd hanesyddol, gwella isadeiledd lleol, rhoi hwb i'r economi, ac atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol cymunedau. Mae cefnogaeth i'r rhaglenni hyn yn allweddol i gyflawni prosiectau sy'n cael effaith weladwy ac ymarferol ar drigolion ac ymwelwyr.








Angharad Jones gyda'i cherflunwaith ym Mhenygroes a gwaith celf sy'n adlewyrchu hanes yr ardaloedd llechi gan yr artist Howard Bowcott ym Mhorthmadog.






CYNGOR GWYNEDD · PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK · CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL





Celfwaith sy'n adlewyrchu hanes yr ardaloedd llechi - Tywyn



Golff Giamocs  ym Mhorthmadog



Dehongliad newydd a uwchraddio canol y dref, Pwllheli









Tafarn Yr Eagles Inn, Llanuwchllyn



Canolfan Prysor, Trawsfynydd



Mae **Cronfa Cymunedau Eryri** yn cefnogi cymunedau yn y Parc Cenedlaethol a'r cyffiniau, gan gefnogi prosiectau mewn meysydd fel isadeiledd gwyrdd, hamdden a lles, ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio, gwelliannau amgylcheddol, datblygu cymunedol, a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r prosiectau a gwblhawyd yn llwyddiannus yn cynnwys gosod paneli haul yn Nhafarn yr Eagles, Llanuwchllyn a hefyd yng Nghanolfan Prysor, Trawsfynydd.



# 8. Cynhadledd Gwynedd ac Eryri 2035

Cynhaliwyd Cynhadledd gyntaf Economi Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri ar 14 Chwefror 2025 yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor ac roedd yn garreg filltir arwyddocaol yn nhaith y rhanbarth tuag at dwristiaeth gynaliadwy.

Fel rhan o strategaeth Gwynedd ac Eryri 2035, daeth y digwyddiad ag arbenigwyr y diwydiant, busnesau lleol ac arweinwyr cymunedol ynghyd i edrych ar ddulliau arloesol i ddatblygu economi ymwelwyr ffyniannus, gynaliadwy.


Yr Athro Terry Stevens

Roedd y gynhadledd yn cynnwys cyflwyniadau trwyadl a oedd yn canolbwyntio ar rannu arferion gorau ar gyfer twristiaeth gyfrifol. Cafodd y mynychwyr gyfle i weld arbenigwyr blaenllaw yn y diwydiant, gan gynnwys yr Athro Terry Stevens, sy'n enwog am ei waith ar dwristiaeth gynaliadwy, yn ogystal â chynrychiolwyr o Adventure Smart, Ecoamgueddfa Llŷn, Croeso Cymru a Phlas Coch, Llanberis.

Roedd y drafodaeth banel olaf dan gadeiryddiaeth Bethan Price yn darparu cipolwg gan weithwyr proffesiynol o Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Bangor, a Chymunedoli. Roedd arddangoswyr fel Piws, Adventure Smart, Llechi Cymru, a Chefnogi Busnes Cyngor Gwynedd yn bresennol, yn cynnig adnoddau a chyfleoedd i rwydweithio. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys cyfle i fynychwyr gyfrannu eu syniadau a'u blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.


Llywiwr y gynhadledd - Bethan Price


Y panel trafod



Stondinau arddangos yn y gynhadledd




Stondinau arddangos yn y gynhadledd

Amlygodd y Cyng. R. Medwyn Hughes, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Economi a Chymuned, bwysigrwydd cydweithio wrth weithredu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035, gan bwysleisio'r nod o weithio'n wahanol er budd pobl, yr amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri.

Disgrifiodd Jonathan Cawley, Prif Swyddog Gweithredol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y gynhadledd fel carreg filltir allweddol tuag at weledigaeth Gwynedd ac Eryri 2035, gan ddarparu llwyfan i bartneriaethau presennol a newydd ffynnu a hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy tra'n dathlu rhinweddau arbennig y rhanbarth.



Cynhadledd Gwynedd ac Eryri